

Ymchwil newydd yn dangos baich cymdeithasol salwch a gludir gan fwyd yn y Deyrnas Unedig

Mae Bwrdd yr ASB wedi croesawu adroddiad sy'n cyflwyno amcangyfrifon cynhwysfawr newydd o'r baich cymdeithasol a achosir gan salwch a gludir gan fwyd yn y Deyrnas Unedig (DU).

Yng Nghyfarfod y Bwrdd, archwiliodd yr aelodau ganlyniad rhaglen helaeth o waith a gynhaliwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r rhaglen yn darparu dealltwriaeth fanylach o effeithiau ehangach clefydau a gludir gan fwyd fel norofeirws, campylobacter a listeria.

Am y tro cyntaf, mae'r astudiaeth hefyd yn cynnwys amcangyfrifon yn seiliedig ar effeithiau achosion salwch a gludir gan fwyd lle na chaiff pathogen penodol ei nodi, yn aml o ganlyniad i bobl yn peidio â mynd i'r ysbyty neu at y doctor.

Mae'r model newydd sy'n cynnwys yr amcangyfrifon yn dilyn proses sefydledig a ddefnyddir yn y DU ac yn rhyngwladol i asesu'r effeithiau ariannol a 'chostau dynol' fel poen, galar a dioddefaint, ynghyd â newidiadau i ansawdd a hyd bywyd.

Datblygwyd amcangyfrifon ar gyfer y 'costau dynol' hyn yn rhannol trwy arolygu mwy na 4,000 o bobl i gynhyrchu gwerthoedd ariannol i fesur effaith gwahanol bathogenau a gludir gan fwyd.

Bydd hyn yn galluogi i'r effeithiau dynol annirnad hyn gael eu hystyried ochr yn ochr ag effeithiau ariannol pan wneir penderfyniadau sy'n ymwneud â salwch a gludir gan fwyd.

Mae'r model yn dangos, ar gyfer 2018:

- mae'r baich a achosir gan yr 13 prif bathogen a gludir gan fwyd gwerth tua £3 biliwn. Norofeirws sydd â'r baich mwyaf, gyda chost flynyddol amcangyfrifedig o £1.68 biliwn ac yna Campylobacter spp. (£0.71bn) a Salmonella spp. (nad yw'n deffoidaidd) (£0.21bn).
- bod achosion salwch a gludir gan fwyd lle na nodwyd pathogen yn achosi baich cymdeithasol amcangyfrifedig o tua £6 biliwn.
- gyda'i gilydd, mae'r ddau amcangyfrifiad yn arwain at ffigur tua £9 biliwn, fel cost blynyddol baich salwch a gludir gan fwyd yn y DU yn 2018.
- bod achosion o Campylobacter, sy'n fwy cyffredin ond yn llai difrifol yn gyffredinol, yn rhoi baich o £2,380 yr un tra bod gan Listeria, y lleiaf cyffredin o'r 13 a fesurir, faich sy'n cyfateb i £230,748 oherwydd y gyfran uwch o farwolaethau, gan arwain at 'gost ddynol' uwch.

Croesawodd y Bwrdd y gwaith a chanfyddiadau'r adroddiad sy'n rhoi ymwybyddiaeth fwy cadarn a chynhwysfawr i'r ASB o effaith pob salwch a gludir gan fwyd ac adnodd ychwanegol i lywio penderfyniadau ar atal yn y dyfodol.

Meddai Heather Hancock, Cadeirydd yr ASB:

“Rwy’n croesawu’r ymchwil newydd hanfodol hon. Mae gallu rhoi cost ar y baich personol, cymdeithasol ac economaidd pan fydd rhywun yn mynd yn sâl o ganlyniad i fwyd yn garreg filltir i’r ASB.

“Byddwn ni’n defnyddio’r gwaith dadansoddi cost salwch newydd hwn, a sut mae’n amrywio rhwng gwahanol germau, i helpu i osod ein blaenoriaethau ar gyfer mynd i’r afael â salwch a gludir gan fwyd ac i ganolbwyntio arbenigedd, arian a dylanwad yr ASB.”

Meddai’r Athro Rick Mumford, Pennaeth Tystiolaeth ac Ymchwil Gwyddoniaeth yr ASB:

“Am y tro cyntaf mae’r model hwn yn rhoi darlun llawer mwy manwl i’r ASB a phartneriaid eraill o sut y gall salwch a gludir gan fwyd effeithio ar gymdeithas.

“Rydym ni wedi’i gynllunio o’r llawr i fyny i fesur effeithiau pathogenau penodol yn ogystal ag am y tro cyntaf, darparu amcangyfrif o fwyafrif yr achosion lle nad oes unrhyw bathogen yn cael ei briodoli.

“O ganlyniad, mae bellach gennym ni dystiolaeth gadarn, feintiol ar effaith clefydau a gludir gan fwyd sy’n cryfhau ein gallu i wneud penderfyniadau yn sylweddol.”

Meddai Richard Smith, Dirprwy Is-Ganghellor ac Athro Economeg Iechyd ym Mhrifysgol Exeter:

“Mae darparu dealltwriaeth o effaith clefyd a gludir gan fwyd ar unigolion a chymdeithas ehangach yn gam hanfodol i ddeall sut orau i ddelio ag ef.

“Mae gan yr ASB hanes cyfoethog o ddatblygu dadansoddiadau o’r fath, ac mae’r gwaith diweddaraf hwn yn adeiladu ar hynny gyda diwygiadau a diweddariadau sylweddol i ddarparu’r gwerthoedd mwyaf cadarn eto o effaith gymdeithasol clefyd a gludir gan fwyd.

“Mae hyn yn darparu adnodd cadarn, pwerus a hyblyg i gynorthwyo’r ASB i bennu ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i’r afael â chlefyd a gludir gan fwyd, sy’n parhau i fod yn her ddifrifol i’n cymdeithas.”

Gweithiodd economegwyr yr ASB gydag academyddion o brifysgolion blaenllaw’r DU i ddatblygu’r model Cost Salwch i nodi a mesur holl gostau clefyd penodol.

Mae’r model wedi’i seilio ar fodel Cost i Brydain yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy’n amcangyfrif mai £15 biliwn yw cost flynyddol marwolaethau yn y gweithle, anafiadau hunan-gofnodedig ac afiechydon.

Sicrhawyd ansawdd y model newydd hwn yn fewnol ac yn allanol gan arbenigwyr annibynnol ac mae’n welliant sylweddol o’r model syml blaenorol a ddefnyddiwyd i amcangyfrif baich salwch a

gludir gan fwyd. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gymhwysu'r methodolegau hyn i feysydd eraill, gan gynnwys alergeddau a gorsensitifrwydd i fwyd.

Nodiadau i olygyddion

Mae'r amcangyfrif newydd yn fwy na'r ffigurau blaenorol, ond ni ellir cymharu'r rhain yn uniongyrchol am nifer o resymau sylfaenol:

- dyma'r tro cyntaf i ni fesur achosion lle nad oes unrhyw bathogen penodol yn cael ei briodoli, sy'n cyfrif am 60% o achosion
- mae amcangyfrif o nifer yr achosion salwch a briodolir i salwch a gludir gan fwyd wedi cynyddu o 1 miliwn i 2.4 miliwn fel y cyhoeddwyd y mis diwethaf
- mae'r model newydd yn defnyddio methodoleg wahanol i gyfrifo'r 'costau dynol' anariannol, sy'n cyfrif am bron i 80% o'r baich cyffredinol

Cyhoeddiadau

[LINK TO PUBLICATION]